# MAGU GWYDDAU

## CYNHYRCHU TYMHOROL

**TAFLEN CALU**
Mehefin 2009
Cyf: 040803

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

**RHAGARWEINIAD**

Gellir cadw gwyddau am eu hwyau neu fel cig. Mae'r daflen hon yn canolbwyntio ar fagu gwyddau er mwyn eu cig. Nid yw'n ymdrin â pâté iau gŵydd. Dylid nodi hefyd bod stwffio bwyd i lawr gyddfau gwyddau i gynhyrchu pâté iau gŵydd yn anghyfreithlon ym Mhrydain.

Y Nadolig yw prif dymor gwerthu gwyddau, er bod y tymor traddodiadol pryd y caiff cig gŵydd ei fwyta yn ymestyn o Ŵyl Fihangel (29 Medi) i'r flwyddyn newydd. Caiff bron yr holl wyddau ym Mhrydain eu magu ar gyfer y farchnad dymhorol hon. Nododd Defra yn 2007 bod yna tua 300 o gynhyrchwyr gwyddau tymhorol ym Mhrydain a oedd rhyngddynt yn magu oddeutu 300,000 o adar. O'r rhain roedd tua 100,000 o adar yn cael eu cynhyrchu gan un cwmni. Ar wahân i'r prif gynhyrchwr hwn, mae cynhyrchwyr tymhorol yn cadw tua 200 i 300 o adar ar gyfartaledd.

Un o brif atyniadau cadw gwyddau yw eu system dreulio effeithiol a'u harferion pori naturiol. Golyga hyn y gellir cynhyrchu adar ar gyfer y farchnad ar fwyd o welltglas i gryn raddau.

**CIG GŴYDD**

Mae cig gŵydd yn cynnwys llawer o brotein (tua 25g y 100g fel rheol). Mae braster y cig yn amrywio, yn dibynnu ar frîd yr aderyn, y ffordd mae wedi cael ei reoli a'r bwyd mae wedi'i fwyta. Mae'r braster a geir yn y cig ar ôl ei goginio yn dibynnu'n helaeth iawn ar y dull coginio. Nid yw cig gŵydd heb ei groen yn cynnwys llawer iawn o fraster. Ymhellach, mae'n tueddu i gynnwys canran gymharol uchel o asidau brasterog monoannirlawn (*monounsaturated*). Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd mawr iawn yn y galw am saim gŵydd ar ei ben ei hun wedi i gogyddion amlwg ar y teledu ddweud mai hwn yw'r saim delfrydol ar gyfer coginio tatws rhost.

**CYNHYRCHU**

Fel rheol caiff yr adar eu lladd pan maent tua 10 wythnos oed, fel adar ysgafn ifanc, neu gael eu cadw nes byddant tua 24 wythnos oed. Rhwng y ddau oedran hyn mae'r adar yn anodd eu pluo gan fod ganddynt nifer fawr o blu wrthi'n datblygu sy'n dal i dderbyn cyflenwad gwaed.

Mae'r adar yn tyfu'n gyflym iawn nes maent tua 10 – 12 wythnos oed. Wedyn, maent yn tyfu'n llawer arafach. Gellir magu adar ar gyfer y farchnad Nadolig ar laswellt yn unig bron tan ychydig wythnosau cyn y Nadolig. Bryd hynny dechreuir rhoi bwyd ychwanegol iddynt er mwyn sicrhau eu bod mewn cyflwr da ac wedi tewychu erbyn yr adeg pan fyddant yn cael eu lladd.

I gynhyrchu'r adar trwm, traddodiadol ar gyfer y Nadolig bydd angen prynu cywion diwrnod oed gan gyflenwr dibynadwy ym Mehefin neu Orffennaf. Am y tair wythnos gyntaf rhaid cadw'r adar i mewn gyda gwres a goleuni ychwanegol. Mae angen cadw cywion diwrnod oed mewn tymheredd o tua 30°C. Caiff y tymheredd ei ostwng yn raddol dros gyfnod o dair wythnos wrth i blu'r adar ddatblygu ac wrth iddynt gynefino â'r tymheredd arferol.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

calu
Centre for Alternative Land Use
Canolfan Defnydd Tir Amgen

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**BRIDIAU**

Mae bridiau Ewropeaidd o wyddau domestig wedi cael eu magu o wyddau gwylltion (*Anser anser*). Y ddau frîd mwyaf cyffredin ar gyfer eu cig yw'r Embden (plu gwynion)a Toulouse (lliw brown / llwyd tebyg i wyddau gwylltion, ond yn llawer trymach). O fewn y bridiau, datblygwyd rhywogaethau o adar gyda nodweddion neilltuol. Y prif rywogaeth ar gyfer cynhyrchu tymhorol ym Mhrydain yw'r Legarth, sy'n ennill pwysau'n sydyn heb fynd yn rhy frasterog.

Fodd bynnag, mae yna lawer o wahanol fridiau o wyddau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae gwyddau Asiaidd ar gyfer y bwrdd wedi dod yn gynyddol boblogaidd. Mae'r adar hyn yn tueddu i fod yn llai ac felly gellir eu gwerthu i gartrefi gydol y flwyddyn yn hytrach nag ar achlysuron arbennig fel y Nadolig yn unig.

Mae gwyddau gwrywaidd yn drymach na'r rhai benywaidd. Fel rheol bydd rhai gwryw Embden tua 15kg a'r rhai benywaidd tua 9kg (pwysau byw). Gellir gweld beth yw rhyw cywion gwyddau trwy archwilio'r organau rhywiol.

**BWYD A DŴR**

Anifeiliaid pori naturiol yw gwyddau a gallant fyw ar welltglas yn unig a chymryd nad oes pwysau rhy drwm ohonynt. Wrth bori allan byddant yn anochel yn bwyta amrywiaeth o infertebratiaid bychain sy'n ychwanegiad at y glaswellt. Bydd dwysedd y stoc yn dibynnu ar ansawdd y glaswellt y mae'r adar yn ei bori; tua 150 o adar yr hectar yw'r arferol.

Mae'n well gan wyddau laswellt ifanc ffres, felly mae angen rheoli'r glaswellt i sicrhau hyn. Os yw'r glaswellt yn fwy na 10 – 12cm argymhellir ei dorri oherwydd gall gwelltglas tal achosi rhwystr yng nghrombil yr adar a'u hatal rhag bwyta.

Ar gyfer cynhyrchu masnachol rhoddir bwyd ychwanegol i'r adar. Mae'n bosibl cymysgu dogn gyda blawd gwenith fel y prif fwyd. Mae hyn yn rhywbeth y dylech ei drafod gyda'ch cyflenwr bwyd er mwyn sicrhau bod yr adar yn cael cydbwysedd priodol o faethynnau. Hefyd, mae bwydydd arbenigol ar gyfer adar dŵr ar gael. Dyma'r prif fathau:

- Briwsion/pelenni cychwynnol – o ddiwrnod oed i dair wythnos (cynnwys llawer o brotein, c.20%)
- Pelenni tyfu – o'r drydedd i'r wythfed neu'r ddegfed wythnos
- Dogn cynnal (naill ai pelenni arbenigol, neu wenith) tan dair wythnos cyn lladd
- Pelenni gorffen – tair wythnos cyn lladd (nb – dylid llwgu'r adar y diwrnod cyn eu lladd)

Fel unrhyw ddofednod mae'n hanfodol bod gan yr adar ddŵr glân a graean bob amser.

Bydd oedran gorffen adar yn dibynnu ar y farchnad a gofynion cwsmeriaid. Yn gyffredinol, gorffennir adar tymhorol pan maent tua 24 wythnos oed.

**LLOCHES**

Mae ar adar rhyddion angen rhywle i lochesu bob amser (byddant yn chwilio am gysgod mewn tywydd garw). Mae angen eu hamddiffyn hefyd rhag llwynogod a chŵn yn arbennig.

I'r diben hwn y cyfan sydd ei angen yw adeilad syml, sy'n dal dŵr ac y gellir ei gau dros nos. Bydd angen ei lanhau'n gyson gan fod gwyddau'n anifeiliaid digon budr. Argymhellir defnyddio haen denau o sglodion coed fel gwely iddynt.

Tra gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir, nid ellir dal CALU yn gyfrifol am ganlyniadau unrhyw gamau gweithredu a wneir ar sail ei chynnwys.

## COSTAU

Bydd costau cynhyrchu'n dibynnu llawer iawn ar faint o fwyd y byddwch yn ei brynu. Adeg ysgrifennu'r daflen hon mae bwyd yn costio tua £0.50 y cilogram ar gyfartaledd. Felly, byddai'n costio tua £20 i fwydo aderyn 10kg (pwysau byw) pe bai'n cael ei fwydo ar fwyd wedi ei brynu yn unig. Ond, yn ymarferol, bydd y gost hon yn is gan y bydd yr adar yn pori hefyd.

Mae costau eraill i'w hystyried yn cynnwys llafur, adeiladu cwt, cyflenwadau milfeddygol, costau lladd a thrin (yn cynnwys cludo'r adar i'w lladd os byddant yn cael eu lladd oddi ar y safle).

Mae'r pris a geir wrth werthu adar rhyddion yn amrywio'n fawr ac yn dibynnu'n helaeth ar nodweddion demograffig yr ardal lle caiff yr adar eu gwerthu. Yn 2008 roedd adar rhyddion ar gyfer y Nadolig yn cael eu gwerthu ar brisiau'n amrywio o £7.50 i £20.00 y cilogram yn achos adar yn barod i'r popty.

## LLADD

Gall cynhyrchwyr sy'n magu llai na 10,000 o adar y flwyddyn a'u gwerthu'n uniongyrchol i'r cwsmer terfynol ladd yr adar ar eu heiddo, a chymryd bod:

- yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) a'r Awdurdod Lleol wedi cael eu hysbysu ac wedi rhoi caniatâd;
- gan yr eiddo fesurau iechyd a diogelwch priodol a gymeradwywyd gan y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol;
- A bod gan y sawl sy'n lladd Drwydded Gofrestredig ar gyfer lladd gwyddau gyda'r offer penodol sydd i'w defnyddio. Sylwer bod trwyddedau i laddwyr yn benodol iawn o ran y mathau o anifeiliaid i'w lladd a'r offer i'w defnyddio.

Yn achos cynhyrchwyr mwy rhaid mynd â'r adar i ladd-dai cofrestredig. Mae rhestr o ladd-dai cofrestredig ar gyfer dofednod i'w chael ar wefan yr FSA (www.food.gov.uk).

## IECHYD A LLES

Mae gwyddau, yn arbennig rhai rhyddion, yn tueddu i fod yn bur iach heb fawr broblemau iechyd. Fodd bynnag, mae adar rhyddion yn fwy tueddol o ddioddef oddi wrth ymosodiadau llyngyr parasitig (y gellir eu trin gyda chyffuriau atal llyngyr priodol).

Mae adar ifancach yn fwy tueddol o gael problemau iechyd na rhai hŷn. Bydd cadw golwg reolaidd ar yr adar o gymorth i sicrhau y sylwir yn fuan ar unrhyw broblemau iechyd. Bydd dulliau hwsmonaeth dda, e.e. gofalu prynu adar yn unig gan gyflenwyr dibynadwy, cadw adar magu oddi wrth adar sy'n cael eu tewychu, archwilio adar ifancach cyn rhai hŷn, cael cyn lleied â phosibl o gyswllt ag ymwelwyr ac adar gwylltion, i gyd o gymorth i leihau'r posibilrwydd o gael problemau iechyd.

## DEDDFWRIAETH

Caiff lles gwyddau fferm (a holl anifeiliaid fferm eraill) eu gwarchod gan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 a chan Reoliadau Lles Anifeiliaid Fferm (Cymru) 2007. Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n cadw mwy na 50 o adar gofrestru ar Gofrestrfa Defra o Ddofednod Prydain Fawr (ffôn: 0800 634 112 neu ewch i http://www.defra.gov.uk/animalh/diseases/vetsurveillance/poultry/index.htm). Mae'n syniad da cofrestru â Defra, hyd yn oed os ydych yn cadw llai na 50 o adar.

Tra gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir, nid ellir dal CALU yn gyfrifol am ganlyniadau unrhyw gamau gweithredu a wneir ar sail ei chynnwys.